



Ysgol Pentreuchaf

122. Polisi Plant sy'n Dianc o'r Ysgol

Nod

Sefydlu a gweithredu trefn fydd yn sicrhau diogelwch pob plentyn sydd yn ein gofal ac yn cynnig canllawiau i ni wneud pob dim o fewn ein gallu pe bai problem yn codi.

Amcanion

Mae sefydlu polisi pendant ar gyfer delio yn ymarferol gyda sefyllfaoedd lle bo plant yn dianc oddi ar dir yr ysgol yn hynod anodd gan fod y dull o ymateb yn amrywio o sefyllfa i sefyllfa. Yn y cyd-destun hwn cyflwynir y pwyntiau a ganlyn i amlinellu'r camau a gymerir i geisio atal digwyddiad o'r fath a ymateb petae disgybl yn dianc o'r ysgol.

Canllawiau

1. Camau Ataliol

- i) Mae'r ysgol yn derbyn ac yn cydnabod cyfrifoldeb 'loco parentis' dros y disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn y cyd-destun hwn byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein bod yn gweithredu fel y byddai unrhyw riant gofalus yn ei wneud.
- ii) Byddwn yn gweithredu cynnwys ein hasesiadau risg i geisio lleihau'r posibilrwydd o ddisgybl yn dianc oddi ar dir yr ysgol yn ystod gwersi, egwyliu neu ar ddiwedd y dydd. E.e. Giatiau, Drysau, Goruchwylio a.y.y.b.
- iii) Byddwn yn goruchwylio'r disgyblion yn ystod gwersi, egwyliu ac ar ddiwedd y dydd wrth iddynt adael tir yr ysgol (Clwb brecwast yn cychwyn am 8.10 a.m., goruchwyliaeth bore yn cychwyn am 8.50 a.m.)
- iv) Ceisir sicrhau fod pob giât sy'n rhoi mynediad i'r ysgol wedi eu cau bob amser.
- v) Mae Polisi Presenoldeb yr ysgol yn sicrhau ein bod yn cael gwybod am blant fydd yn absennol cyn 9.00 a.m. Os na fydd rhieni yn gadael i ni wybod, bydd aelod o staff yn cysylltu â'r rhieni cyn 9.30 a.m. Mae hyn yn sicrhau fod pawb yn gwybod ble mae pob plentyn, a'i fod yn ddiogel.

2. Dulliau o Ymateb

- i) Pan fo disgybl wedi dod i'r ysgol (e.e. i'r Clwb Brecwast) yn dianc yn ddiarwybod i staff (e.e. rhwng 8.50 a.m. a 9.00 a.m.) a hyn yn dod yn hysbys i staff, hysbysir y rheini neu berson cyswllt a chynnal archwiliad o'r safle mewn ymgais i sicrhau nad yw'r disgybl yn cuddio rhag y staff. Mae angen cysylltu gyda'r Heddlu i'w hysbysu bod disgybl wedi gadael tir yr ysgol heb ganiatâd (a thrafod ei gyflwr meddwl os yw'n berthnasol) a gadael iddynt wybod pan fydd y plentyn wedi ei ddarganfod.
- ii) Pan fo disgybl yn cael ei weld yn dianc oddi ar dir yr ysgol, dilytir y camau a ganlyn –
 - a) Ceisio dylawnadu ar y sefyllfa trwy alw enw'r disgybl a gofyn iddo ddychwelyd.
 - b) Hysbysu aelod arall o staff i gael neges i'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth bod y disgybl wedi dianc a dod i benderfyniad (o adnabyddiaeth o'r plentyn) bod un aelod o staff yn cysylltu â'r rhieni a'r Heddlu tra bo aelod arall yn dilyn y disgybl.

3. Materion perthnasol eraill

- i) Oedran y plentyn (yn berthnasol i bob plentyn)
- ii) Gofynion arbennig (yn berthnasol i bob plentyn)
- iii) Natur lleoliad yr ysgol (yn berthnasol i bob ysgol)
- iv) Cyflwr emosiynol y plentyn (yn berthnasol i bob plentyn)
- v) Lles a diogelwch y disgybl

4. Bydd angen cyfarfod ffurfiol wedyn yn cynnwys y rhieni a Swyddog Lles yr ysgol, creu Cytundeb Ysgrifenedig a'r Swyddog Lles i fonitro'r sefyllfa.

Casgliad

Sicrhau diogelwch pob plentyn sydd dan ofal staff yr ysgol yn ystod oriau'r ysgol, a chynnig canllawiau iddynt eu dilyn pe byddai disgybl yn dianc.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____